TGAU

# CBAC TGAU
# BWYD A MAETH

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cwestiynau Cyffredinol am y Fanyleb

**C: Beth yw prif nodau'r cymhwyster TGAU Bwyd a Maeth?**
A: Nod y cymhwyster yw helpu dysgwyr i ddeall taith bwyd 'o'r fferm i'r fforc', gwneud penderfyniadau iach a gwybodus pan mae'n dod i fwyd, esbonio swyddogaeth a manteision maethol cynhwysion, ac archwilio'r dylanwadau economaidd, amgylcheddol, moesegol a chymdeithasol-ddiwylliannol ar argaeledd bwyd a deiet.

**C: Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng yr hen fanyleb o 2016 a'r fanyleb newydd o 2025 o ran strwythur?**
A: Mae manyleb 2016 wedi'i rhannu'n ddwy uned: Egwyddorion Bwyd a Maeth (Uned 1) a Bwyd a Maeth ar Waith (Uned 2). Mae manyleb 2025 wedi'i rhannu'n dair rhan: Egwyddorion Bwyd a Maeth (Uned 1), Ymchwiliad Bwyd (Uned 2), a Bwyd a Maeth ar Waith (Uned 3).

**C: Pa destunau newydd sydd wedi'u cynnwys ym manyleb 2025?**
A: Mae manyleb 2025 yn cynnwys testunau newydd sy'n gosod mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd ac effeithiau amgylcheddol cynhyrchu bwyd.

**C: Sut mae'r fanyleb hon yn alinio ag egwyddorion a llinynnau Cwricwlwm i Gymru?**
A: Mae'n alinio â'r Cwricwlwm i Gymru drwy gefnogi'r gosodiadau o ran yr hyn sy'n bwysig, egwyddorion cynnydd, ac ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Bwyd a Maeth. Mae'n darparu cyfleoedd i ymgorffori'r themâu, sgiliau, a'r profiadau dysgu trawsgwricwlaidd sydd wedi'u hamlinellu yn y Cwricwlwm, megis thema trawsbynciol y cwricwlwm sef hawliau dynol ac amrywiaeth, cyfraniadau a chogyddiaeth cymunedau Du, Asiaidd, a lleiafrifol ethnig. I weld mapio manwl, cyfeiriwch at Atodiad B.

**C: Sut mae'r cwrs wedi'i strwythuro o ran asesiad?**
A: Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau asesiadau di-arholiad yn gynharach yn y cwrs ond rhaid eu cyflwyno ar ddiwedd y cwrs.

Mae'r cymhwyster yn cael ei gyflwyno drwy gyfuniad o arholiad digidol (Uned 1), ac asesiadau di-arholiad (Unedau 2 a 3). Mae Uned 1 yn 40% o'r cymhwyster, Uned 2 yn 20%, ac Uned 3 yn 40%.

Y ganolfan fydd yn marcio'r ddwy uned asesu di-arholiad a CBAC bydd yn eu cymedroli. Mae gan bob uned feini prawf penodol wedi'u rhestr yn nhasgau'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol sy'n dangos y math o dystiolaeth y gall dysgwr ei defnyddio yn ei waith. Darparwyd cynlluniau marcio ym mhecyn asesu y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol hefyd.

**C: Beth yw'r amcanion asesu a sut maen nhw wedi'u pwysoli?**
A: Yr amcanion asesu yw:
- AA1: Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth (15%)
- AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol (30%)
- AA3: Dadansoddi a gwerthuso (20%)
- AA4: Cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno seigiau (35%)

**C: Pryd fydd yr arholiad ar gyfer Uned 1 ar gael?**
A: Bydd arholiad Uned 1 ar gael yn flynyddol o Haf 2027 ymlaen. Bydd Asesiadau di-arholiad Uned 2 ac Uned 3 hefyd ar gael bob blwyddyn o haf 2027 ymlaen, sef pryd fydd y cymhwyster llawn TGAU yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf.


© WJEC CBAC Ltd 2025.

**C: Beth yw'r raddfa raddio a'r broses ddyfarnu?**
A: Mae'n defnyddio'r raddfa draddodiadol 8-pwynt A*-G. Mae'r dyfarnu'n dilyn prosesau safonol CBAC yn unol â gofynion rheoleiddiol.

**C: Beth yw'r amser dysgu dan arweiniad a argymhellir ar gyfer y cwrs hwn?**
A: Mae'r fanyleb yn argymell 120-140 o oriau dysgu dan arweiniad, wedi'u cynllunio'n bennaf fel rhaglen 2-flynedd i ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11.

**C: Sut bydd deunydd yr Asesiadau di-arholiad ar gyfer Uned 2 ac Uned 3 yn cael ei ddarparu?**
A: Bydd briffiau'r Asesiadau di-arholiad sy'n cynnwys y wybodaeth am y senario ar gael i ganolfannau drwy Borth CBAC ym mis Mai blwyddyn cyntaf yr astudio (Blwyddyn 10). Gall canolfannau benderfynu p'un a ydynt am rannu â myfyrwyr yn ystod Blwyddyn 10 neu 11.

**C: Pa fathau o ddatblygiad proffesiynol neu hyfforddiant fydd ar gael i athrawon?**
A: Mae CBAC yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol, dogfennau canllaw, ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cymwysterau newydd. Edrychwch ar dudalen we'r cwrs ar wefan CBAC i weld manylion digwyddiadau sydd i ddod a'r adnoddau sydd ar gael.

## Cwestiynau'n ymwneud â chynnwys y cymhwyster

**C: Pa destunau sy'n ymddangos yn Uned 1: Egwyddorion Bwyd a Maeth?**
A: Mae'r testunau'n cynnwys grwpiau cynwydd bwyd, maetholion ar gyfer deiet cytbwys, deiet ac iechyd, coginio bwyd, gwastraff bwyd, a'r daith o'r fferm i'r fforc.

**C: Beth yw'r meysydd ffocws allweddol yn Uned 2: Ymchwiliad Bwyd?**
A: Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar wyddor bwyd, cynllunio arbrofion gwyddor bwyd, a chynnal ymchwiliadau i wyddor bwyd.

**C: Pa sgiliau sy'n cael eu datblygu yn Uned 3: Bwyd a Maeth ar Waith?**
A: Bydd dysgwyr yn cynllunio, paratoi, coginio, a chyflwyno bwyd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol, gan ystyried ffactorau sy'n effeithio ar ddewisiadau bwyd ac archwilio gwerthoedd maethol

**C: Beth yw'r gofynion ar gyfer yr asesiadau di-arholiad yn Unedau 2 a 3?**
A: Mae Uned 2 yn gofyn am 8 awr o ymchwiliad bwyd yn seiliedig ar friff wedi'i ryddhau ymlaen llaw. Mae Uned 3 yn cynnwys 12 awr o asesiad lle mae dysgwyr yn cynllunio, paratoi, a choginio canlyniadau bwyd yn seiliedig ar friff.

**C: Sut mae'r fanyleb yn mynd i'r afael â chydraddoldeb a mynediad teg?**
A: Mae’r fanyleb wedi'i chynllunio i fod yr un mor hygyrch i bob dysgwr, waeth beth yw eu rhywedd a’u cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Mae addasiadau rhesymol a threfniadau asesu ar gael i ddysgwyr cymwys.

**C: A all dysgwyr gymryd rhan mewn ffug arholiad ar sgrin ar gyfer Uned 1?**
A: Bydd gan yr holl ganolfannau fynediad at ffug arholiadau ar-sgrin. Cysylltwch â'r tîm e-asesu am wybodaeth. Bydd hwn ar gael drwy Surpass.



© WJEC CBAC Ltd 2025.